# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 30 Hydref 2007

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi ffigurau am gyrhaeddiad plant gydag a) anableddau corfforol; b) nam ar y synhwyrau ac c) anawsterau iechyd meddwl mewn TGAU, o'i gymharu â'r cyfartaledd? (WAQ50549)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Nid yw ffigurau ar gyrhaeddiad lefel TGAU plant ag anghenion addysgol arbennig wedi cael eu cyhoeddi hyd yn hyn. Fodd bynnag, yn dilyn datblygu cronfa ddata genedlaethol disgyblion, mae data ar lefelau disgyblion bellach ar gael sy'n cyfateb i ddata ar nodweddion disgyblion megis tarddiad ethnig ac anghenion addysgol arbennig o gyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion i gyrhaeddiad a gwybodaeth am arholiadau yng nghyfnodau allweddol 1 i 4.

Drwy ddefnyddio'r set data hon disgwyliwn gyhoeddi bwletin ystadegol newydd ar gyrhaeddiad wrth gyfeirio at anghenion addysgol arbennig yng ngwanwyn 2008.

**Nick Ramsay (Mynwy):** Beth mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i sicrhau bod pob plentyn yn gallu cael mynediad i ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg yn eu hetholaeth? (WAQ50551)

**Jane Hutt:** Cyfrifoldeb yr awdurdodau addysg lleol yw cynllunio a darparu lleoedd mewn ysgolion i ddiwallu'r anghenion lleol yng ngoleuni gwybodaeth leol a chan ystyried effeithlonrwydd hefyd. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn darparu cludiant am ddim i ysgolion cyfrwng Cymraeg hyd yn oed pan nad y rhain yw'r ysgolion agosaf. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn monitro perfformiad awdurdodau lleol wrth gynllunio lleoedd mewn ysgolion.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi cost y 'Tîm Perffaith' a) fesul blwyddyn, a b) fesul cyfartaledd yr amser ymchwilio? (WAQ50564)

**Jane Hutt:** Nid yw'n briodol i mi gyhoeddi costau taliadau a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i Servocadream i reoli'r Gwasanaeth Ymchwilio Annibynnol. Mae'r wybodaeth yn fasnachol gyfrinachol. Gallai ryddhau'r wybodaeth roi mantais annheg i gystadleuydd pan gaiff y contract ei ail-dendro. Nid oes cost cyfartalog fesul ymchwiliad. Byddai'r gost yn dibynnu ar yr amser a gymerwyd i gwblhau pob ymchwiliad ac mae hyn yn amrywio rhwng ymchwiliadau.

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi ei wneud o'r effaith a gafodd cau ysgolion gwledig yn y gorffennol ar deuluoedd lleol yn ymgartrefu yn eu pentref neu yn gadael? (WAQ50565)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi ei wneud o'r effaith a gafodd cau ysgolion gwledig yn y gorffennol ar fusnesau'n gweithredu yn eu pentrefi? (WAQ50566)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr effaith a gafodd cau ysgolion gwledig yn y gorffennol ar hyfywedd gwasanaethau cyhoeddus eraill (megis swyddfeydd post) yn eu pentrefi? (WAQ50570)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr effaith a gafodd cau ysgolion gwledig yn y gorffennol ar boblogaeth eu pentrefi? (WAQ50569)

**Jane Hutt:** Nid wyf wedi cynnal unrhyw asesiad ar effeithiau o’r fath. Mae canllawiau cyfredol ar gynigion i ad-drefnu ysgolion, cylchlythyr 23/02, yn nodi’n glir mai un peth y mae’n rhaid ei ystyried yn benodol yw’r effaith gyffredinol a gaiff hynny ar y gymuned ac i ba raddau y mae’r ysgol yn gwasanaethu’r gymuned gyfan fel adnodd dysgu. Disgwylir i awdurdodau sy’n ystyried cau ysgolion bach ddilyn y canllawiau hyn. Efallai y bydd awdurdodau lleol yn gallu rhoi’r wybodaeth yr ydych am ei chael i chi. Pan gaf gynigion ar gau ysgolion er mwyn penderfynu arnynt, ystyriaf yr effaith gyffredinol y gallai cau’r ysgol ei chael ar y gymuned, ond addysg y plant sydd o’r pwys mwyaf.

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gynyddu nifer y disgyblion sy’n astudio pynciau gwyddonol ar bob lefel yng Nghymru? (WAQ50572)

**Jane Hutt:** Mae gwyddoniaeth yn bwnc gorfodol hyd at 16 oed. Llunnir y cwricwlwm gwyddoniaeth 7 i 16 yr wyf yn ei gyflwyno o 2008 er mwyn gwneud gwyddoniaeth yn fwy perthnasol ac yn bwnc sy’n canolbwyntio ar y dysgwr. Bydd disgyblion yn dysgu egwyddorion gwyddonol ochr yn ochr ag archwilio materion sy’n effeithio ar y gymdeithas a’r ffordd y mae gwyddoniaeth yn helpu i’r fynd i’r afael â’r rhain. Gall ysgolion ddefnyddio enghreifftiau o wyddonwyr proffil uchel yng Nghymru er mwyn ysbrydoli pobl ifanc.

Mae’r ethos hwn yn rhan o’r arholiadau TGAU newydd yn y gwyddorau, a arholwyd yn gyntaf yn 2007. Mae’r gyfres hon yn cynnwys opsiynau i adnabod diddordebau a dyheadau unigol. Er enghraifft, mae gwyddoniaeth gymhwysol yn galluogi disgyblion i ymchwilio i’r ffordd y mae gwyddoniaeth a gwyddonwyr yn cyfrannu at y gymdeithas a’r economi, yn lleol ac yn fyd-eang.

Er mwyn sicrhau bod mwy o ddisgyblion yn astudio gwyddoniaeth ôl-16 mae angen i bobl ifanc gael profiadau gwyddonol diddorol a pherthnasol ohoni fel y caiff rhagor eu hysgogi i barhau â’u hastudiaethau. Cynlluniwyd y cwricwlwm a’r cymwysterau gwyddoniaeth TGAU diwygiedig i wella cyrhaeddiad ac i annog mwy o bobl ifanc i barhau gyda gwyddoniaeth ar ôl-16. Mae’r safonau uwch diwygiedig o 2008 yn ymdrin â’r wyddoniaeth ddiweddaraf, yn cysylltu gwyddoniaeth â datblygiadau technegol newydd ac yn cynnwys sut mae gwyddoniaeth a gwyddonwyr yn gweithio. Gyda’i gilydd, nod y newidiadau hyn yw annog disgyblion i ddewis astudio gwyddoniaeth ar y lefel hon.

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyfywedd partneriaethau a ffederasiynau cymunedol fel cyfrwng i gynnal ysgolion gwledig? (WAQ50573)

**Jane Hutt:** Dyletswydd awdurdodau lleol yw penderfynu a yw’n ymarferol trefnu ysgolion yn ffederasiynau ai peidio, yng ngoleuni eu gwybodaeth leol. Mae ysgolion ffederal yn ffordd o ad-drefnu a all gynnal presenoldeb addysgol ym mhob cymuned ysgol sy’n bodoli. Sefydlwyd ysgolion ffederal yn sir Benfro, sir Gaerfyrddin a sir Ddinbych. Mae gweithdrefnau statudol o dan adrannau 28 a 29 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn angenrheidiol er mwyn sefydlu ysgol ffederal yn swyddogol.

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi unrhyw warantau i deuluoedd sy’n dymuno addysgu eu plant trwy gyfrwng y Gymraeg neu ar sail crefydd na fydd y bwriad i gau ysgolion yng Ngwynedd yn effeithio ar eu gallu i wneud hynny? (WAQ50574)

**Jane Hutt:** Os bydd awdurdod lleol am gau ysgol bydd angen iddo gyhoeddi cynnig statudol i’r perwyl hwnnw. Pe bai gwrthwynebiad i gynigion o’r fath byddai’r cynigion yn cael eu cyflwyno i mi er mwyn penderfynu arnynt. Caiff unrhyw gynnig a ddaw ger fy mron ei feirniadu ar ei rinweddau unigol a byddaf yn ystyried yr holl faterion perthnasol gan gynnwys a oes darpariaeth addas amgen ar gael. Yn achos ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ysgolion sydd â chymeriad crefyddol penodedig, bydd hyn yn cynnwys ystyried a oes darpariaeth debyg ar gael. Fodd bynnag, ystyrir addysg uwch ben popeth arall.